

DYDD MERCHER, 22 CHWEFROR 2023

AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR

**YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD Y
CYNGOR SIR A GYNHELIR YN SIAMBR - NEUADD Y SIR,
CAERFYRDDIN. SA31 1JP AC O BELL AM 10.00 YB, DYDD
MERCHER, 1AF MAWRTH, 2023 ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION
A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM**

Wendy Walters

PRIF WEITHREDWR

GELLIR GWYLIO'R CYFARFOD AR WEFAN Y CYNGOR DRWY'R DDOLEN CANLYNOL:-
[HTTPS://CARMARTHENSHERE.PUBLIC-I.TV/CORE/PORTAL/HOME](https://carmarthenshire.public-tv/core/portal/home)

Swyddog Democrataidd:	Kevin Thomas
Ffôn (Ilinell uniongyrchol):	01267 224027
E-bost:	kjthomas@sirgar.gov.uk

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive*,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.
3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.
4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y
CYNGOR A GYNHALIWDYD AR 25 IONAWR 2023 5 - 14
5. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET O RAN A MATERION
CYNLYNOL:-
 - 5.1 STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW 2023/24 I 2025/26 15 - 134
 - 5.2 RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNEDD 2023/24 - 2027/28. 135 - 170
 - 5.3 POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH 2023-24 171 - 222
 - 5.4 STRATEGAETH GORFFORAETHOL CYNGOR SIR
CAERFYRDDIN 2022-27 223 - 262
6. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWDYD
AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:
 - 6.1 30 IONAWR, 2023 263 - 268
 - 6.2 13 CHWEFROR 2023 269 - 278
7. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-
 - 7.1 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN
CYNGHORWYR ROB JAMES, DERYK CUNDY, ANDREW
DAVIES AC ARWEL DAVIES

“Bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cefnogi pryderon trigolion a busnesau lleol ynglŷn â'r cynnig i godi peilonau i gysylltu Parc Ynni Mithil â'r Grid Cenedlaethol yn Sir Gaerfyrddin; yn credu y dylai Bute Energy weithio gyda thirfeddianwyr i osod y ceblau dan ddaear; a'n bod ni, fel Awdurdod, yn ysgrifennu'n ffurfiol at y cwmni ynni i gefnogi'r pryderon a godwyd.”
 - 7.2 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN
CYNGHORWYR GARETH THOMAS, ANN DAVIES, ROB
JAMES AC CRISH DAVIES

Strategaeth ddileu effeithiol ar gyfer TB buchol

Mae'r cyngor hwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfle a ddaw yn sgil y strategaeth dileu TB buchol newydd i ganfod ei heffeithiolrwydd o ran lles anifeiliaid (bywyd gwylt a da byw), iechyd y cyhoedd a'r gost.

Mae lefelau heintio cyson uchel, ei effaith ar les anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd ynghyd â'r gost gynyddol i'r pwrs cyhoeddus yn awgrymu nad yw'r mesurau presennol yn addas i'r diben.

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru nodi'r pwyntiau canlynol a chymryd camau yn eu cylch:-

- Mae TB buchol yn glefyd trosglwyddadwy y dylid mynd i'r afael ag ef yn gyfannol fel mater lles bywyd gwyllt ac anifeiliaid fferm, gan ddefnyddio cyfres gynhwysfawr o fesurau, a arweinir gan y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael.
- Mae'r gofyniad i brofi gwartheg yn aml yn rhoi straen ar dda byw ac yn peri risg uchel o anaf a hyd yn oed marwolaeth i'r rhai sy'n ymwneud â chynnal profion ar gyfer TB buchol.
- Mae'r methiant parhaus i fynd i'r afael â TB buchol yn peri lefelau sylweddol o broblemau iechyd meddwl ymhlith teuluoedd sy'n ffermio a phobl mewn rolau cysylltiedig.
- Mae angen ymdrin ag achosion o'r clefyd ar ddaliadau mewn modd sensitif drwy gyfathrebu'n effeithiol ac yn symlach.
- Dylai fod gan fwrdd y rhaglen ddileu gynrychiolaeth gytbwys gan gynnwys yr holl randdeiliaid yr effeithir arnynt."

8. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

9. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

10. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)

10.1 PWYLLGOR TRWYDDEDU - 10 IONAWR 2023

10.2 PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG - 23 IONAWR 2023

10.3 PWYLLGOR CRAFFU LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID YR HINSAWDD - 23RD IONAWR 2023

10.4 PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - 24 IONAWR 2023

10.5 PWYLLGOR SAFONAU - 24 IONAWR 2023

10.6 PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI & ADFYWIO - 26 IONAWR 2023

10.7 PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL - 30 IONAWR 2023

10.8 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 2 CHWEFWR 2023